Arolwg Diogelwch Cymunedol 2018


Dadansoddiad o'r Canlyniadau

Ofn Trosedd

C2: Sut fyddech chi'n disgrifio eich ofn o droseddau yn Wrecsam, o gymharu â threfi eraill yn y DU?

1362 o ymatebwyr

Lefel yr ofn



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Yn uwch na'r cyfartaledd	45%	51%	+6%
Cyfartalog	45%	41%	-4%
Yn is na'r cyfartaledd	11%	8%	-3%


- Ar draws yr holl grwpiau fe ddywedodd 51% o ymatebwyr bod eu hofn o droseddau yn Wrecsam, o gymharu â threfi eraill yn y DU, yn 'yn uwch na'r cyfartaledd'. Mae hyn yn gynnydd o 6% o gymharu â chanlyniadau 2017.
- Roedd gan ymatebwyr dan 18 mlwydd fwy o ofn o drosedd yn Wrecsam nag unrhyw grŵp oedran arall gyda 65% yn nodi bod eu hofn 'yn uwch na'r cyfartaledd' o gymharu ag ardaloedd eraill.
- 'Yn uwch na'r cyfartaledd' oedd yr ateb mwyaf poblogaidd ym 57% o'r wardiau, mae hyn yn gynnydd o'r ffigwr yn 2017, sef 43%.

C3: Pa rai o'r ffynonellau gwybodaeth canlynol a ddylanwadodd ar eich ymateb i'r cwestiwn blaenorol? (Am eich ofn o fod yn ddioddefwr trosedd yn Wrecsam)

1362 o ymatebwyr

DS: Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy na 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb ar gyfer y cwestiwn hwn.

Ffactor ofn ffynonellau gwybodaeth (mwy nag un ymateb)



Arall (36 o ymatebion) Thema	Nifer yr Ymatebion
Arsylwad / profiad personol	21
Ffigyrau troseddau	1
Gwybodaeth broffesiynol	4
Cyfathrebu lleol e.e. negeseuon drwy OWL	1
Arall	7
Dim un	1
Pob un o'r uchod	1

	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Profiad personol	62%	60%	-2%
Profiadau perthnasau a/neu ffrindiau	49%	50%	+1%
Ar lafar	43%	45%	+2%
Papurau newydd dalennau llydain	7%	8%	+1%
Papurau newydd tabloid	7%	8%	+1%
Allfeydd newyddion lleol	54%	56%	+2%
Rhaglenni dogfen teledu	8%	14%	+6%
Rhaglenni newyddion ar y radio/teledu	14%	18%	+4%
Y rhyngrwyd	26%	30%	+4%
Newyddiaduraeth dan arweiniad dinasyddion (e.e. y cyfryngau cymdeithasol)	31%	50%	+19%
Arall	3%	3%	0%


- Roedd y mwyafrif o'r sylwadau a oedd wedi'u cynnwys o dan y thema 'arall' ac 'arsylwad / profiad personol' yn cyfeirio at arsylwadau o amgylch canol y dref, yn cynnwys digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau.
- Y ffynonellau a oedd yn dylanwadu fwyaf ar ofn yr ymatebwyr o droseddau oedd 'profiad personol' (60%) ac 'allfeydd newyddion lleol' (56%).
- O gymharu â chanlyniadau 2017, roedd cynnydd o 19% yn nifer yr unigolion a nododd fod y cyfryngau cymdeithasol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad wrth ateb y cwestiwn blaenorol.
- 'Profiad personol' oedd yr ateb mwyaf poblogaidd ym 56% o'r wardiau.

Ymdeimlad o ddiogelwch lle rydych yn byw


Ymatebion gan breswylwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unig.

C4: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cael profiad personol, neu wedi bod yn dyst, i unrhyw un o'r canlynol o fewn radiws o 2 filltir o'ch cartref?

Profiad personol (719 o ymatebwyr)



Tyst i'r canlynol (1079 o ymatebwyr)




Arall / Sylwadau Pellach (108 o ymatebwyr) Thema	Nifer y Sylwadau
Cohort diamddiffyn amlwg – digartrefedd / cysgu allan / camddefnyddio sylweddau / ymddygiad gwrthgymdeithasol	25
Bwrgleriaeth / dwyn / dwyn o siopau	17
Materion amgylcheddol e.e. baw cŵn	13
Cerbydau oddi ar y ffordd a beiciau modur / gyrru peryglus	12
Problemau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda phobl ifanc / yfed dan oed	8
Gwerthu cyffuriau	6
Llosgi bwriadol / fandaliaeth (eiddo neu gar)	9
Trais / ymddygiad camdriniol	4
Problemau parcio	3
Ymddygiad gwrthgymdeithasol	1
Galw diwahoddiad	1
Aflonyddwch rhywiol	1
Arall	16

- Y gweithgareddau yr oedd pobl wedi'u profi fwyaf o fewn radiws o 2 filltir o'u cartrefi oedd 'parcio anghyfleus, cerbydau wedi'u gadael' (56%), 'sbwriel' (55%) a 'cardota neu ddigartrefedd' (46%).


Y gweithgareddau yr oedd pobl wedi bod yn dyst iddynt fwyaf o fewn radiws o 2 filltir o'u cartrefi oedd 'ymddygiad meddw' (74%), 'pobl yn defnyddio neu'n delio cyffuriau' (73%), ac 'yfed ar y stryd' (72%).

C6. Fe wnaethoch nodi eich bod wedi profi Digwyddiad Casineb yn uniongyrchol neu wedi bod yn dyst i Ddigwyddiad Casineb (sef digwyddiad yn erbyn unigolyn yn seiliedig ar ran o'i hunaniaeth, hynny yw, anabledd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd neu is-ddiwylliant). Nodwch pa un o'r canlynol oedd hyn mewn perthynas ag ef:

Profiad personol (62 o ymatebwyr)



Tyst i'r canlynol (168 o ymatebwyr)




- O'r ymatebwyr hynny a oedd wedi profi digwyddiadau casineb yn uniongyrchol, y math mwyaf cyffredin oedd 'anabledd' (39%) neu 'hil neu ethnigrwydd' (59%).
- O'r ymatebwyr hynny a oedd wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau casineb, y math mwyaf cyffredin oedd 'hil neu ethnigrwydd' (65%) neu 'cyfeiriadedd rhywiol' (49%).


Arall / Sylwadau Pellach (16 o ymatebwyr) **Thema**	**Nifer y Sylwadau**
Cam-drin geiriol oherwydd cenedligrwydd	**2**
Galw enwau / sylwadau dirmygus	**3**
Ymosodiad corfforol	**1**
Cam-drin / bygythiadau ar-lein / porn dial	**2**
Arall	**4**
Wedi fy nhargedu oherwydd maint / pwysau	**3**
Ymosodiad corfforol oherwydd rhywioldeb	**1**
Wedi fy nhargedu oherwydd oedran	**1**
Bwlio ar-lein / porn dial	**1**

C8: Ar ba ffurf oedd y gamdriniaeth?

Profiad personol (64 o ymatebwyr)



Tyst i'r canlynol (172 o ymatebwyr)




- O'r unigolion a oedd wedi profi digwyddiadau casineb, y math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth oedd 'cam-drin geiriol / sarhaus' (83%). Dywedodd merched (33%) eu bod wedi cael profiad o gam-drin geiriol.
- O'r unigolion a oedd wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau casineb, y math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth oedd 'cam-drin geiriol / sarhaus' (81%).

Arall (2 o ymatebion) **Ymateb**	**Nifer yr Ymatebwyr**
Aflonyddwch ar-lein gan ddynion ifanc a chanol oed (a llond llaw o ferched) sy'n credu mai eu barn nhw sy'n gywir a sy'n aflonyddu ar unrhyw un sy'n herio eu safbwynt.	1
Ymosodiad gan *vigilantes*	1


C10: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn y sefyllfaoedd canlynol?

a) Cerdded ar fy mhen fy hun yng ngolau dydd, o fewn radiws o 2 filltir o fy nghartref
1201 o ymatebwyr




	2017	**2018**	**Gwahaniaeth (%)**
Diogel iawn / diogel	71%	72%	+1%
Ddim yn gwybod	5%	6%	+1%
Ychydig yn anniogel / anniogel iawn	24%	23%	-1%

b) Cerdded ar fy mhen fy hun yn y tywyllwch, o fewn radiws o 2 filltir o fy nghartref 1201 o ymatebwyr




	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Diogel iawn / diogel	23%	25%	+2%
Ddim yn gwybod	7%	8%	+1%
Ychydig yn anniogel / anniogel iawn	69%	66%	-3%

c) Pan fyddaf gartref ar fy mhen fy hun yn ystod y dydd 1203 o ymatebwyr



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Diogel iawn / diogel	84%	84%	0%
Ddim yn gwybod	6%	6%	0%
Ychydig yn anniogel / anniogel iawn	10%	11%	+1%

d) Pan fyddaf gartref ar fy mhen fy hun ar ôl iddi dywyllu 1203 o ymatebwyr



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Diogel iawn / diogel	60%	55%	-5%
Ddim yn gwybod	7%	9%	+2%
Ychydig yn anniogel / anniogel iawn	33%	36%	+3%


- Ar draws yr holl grwpiau, roedd y mwyafrif yn teimlo'n 'ddiogel iawn' (26%) neu'n 'eithaf diogel' (46%) wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn ystod y dydd, o fewn cwmpas 2 milltir o'u cartrefi.
- O gymharu, dim ond 6% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo'n 'ddiogel iawn' wrth gerdded ar eu pen eu hunain gyda'r nos , o fewn cwmpas 2 milltir o'u cartrefi.
- Dywedodd 41% o ferched eu bod yn teimlo'n 'anniogel iawn' wrth gerdded ar eu pen eu hunain gyda'r nos o gymharu â 22% o ddynion.

- Roedd 84% o ymatebwyr yn teimlo'n 'ddiogel iawn' neu'n 'eithaf diogel' pan oeddent gartref ar eu pen eu hunain yn ystod y dydd. Mae ffigwr yn gostwng i 55% o gymharu â phan oeddent gartref ar eu pen eu hunain gyda'r nos.
- Ym mhob senario, mae'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel o gymharu â chanlyniadau 2017 ar wahân i pan maent adref ar eu pen eu hunain gyda'r nos (gwahaniaeth o -5%).
- Mae'r ymatebwyr hynny o dan 18 mlwydd oed yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel iawn wrth gerdded ar eu pen eu hunain gyda'r nos (67%) o gymharu â grwpiau oedran eraill (35% ar gyfartaledd).

C11: Gan feddwl am y senario(s) lle wnaethoch gadarnhau eich bod yn teimlo'n anniogel, pa un weithred neu fenter sydd fwyaf tebygol o wneud i chi deimlo'n fwy diogel?

(Ar gyfer y cyfranogwyr a atebodd 'ychydig yn anniogel' neu'n 'anniogel iawn' yng nghwestiwn 10)

815 o ymatebwyr



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Gwell goleuadau stryd	10%	8%	-2%
Gwella diogelwch cartref	4%	6%	+2%
Gwell cysylltiadau cludiant	2%	2%	0%
Plismona gweledegdd uchel	46%	45%	-1%
Gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	25%	24%	-1%
Ymdeimlad gwell o gymuned	5%	5%	0%
Cynllun 'Gwarchod', er enghraifft, Gwarchod y Gymdogaeth	5%	7%	+2%
Arall	2%	3%	+1%


- Pan ofynnwyd pa un weithred fyddai'n gwneud i'r rhai a ddywedodd eu bod yn teimlo 'ychydig yn anniogel' neu'n 'anniogel iawn' yn y cwestiwn blaenorol yn fwy diogel, yr ymateb uchaf oedd 'plismona gweledegdd uchel'.
- 'Plismona gweledegdd uchel' oedd yr ateb mwyaf poblogaidd yn 81% o'r wardiau. Hwn hefyd oedd yr ateb mwyaf poblogaidd ymhlith yr unigolion 71 mlwydd oed a hŷn (61%), o gymharu â 14% ymhlith yr unigolion 18 oed ac iau.

Arall (24 o ymatebion) **Thema**	**Nifer y Sylwadau**
Pob un o'r uchod	**4**
Teledu Cylch Cyfyng	**2**
Plismona ymatebol a gweladwy	**6**
Delio â phobl sy'n cysgu allan / camddefnyddwyr sylweddau	**6**
Symud o'r ardal	**1**
Arall	**6**

Ymdeimlad o Ddiogelwch yng Nghanol y Dref

C13: Pa mor ddiogel oeddech chi'n teimlo wrth ymweld â chanol tref Wrecsam yn ystod y dydd?


1255 o ymatebwyr



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Diogel iawn / diogel	46%	35%	-11%
Ddim yn gwybod	6%	7%	+1%
Ychydig yn anniogel / anniogel iawn	49%	58%	+9%

C14: Pa mor ddiogel oeddech chi'n teimlo wrth ymweld â chanol tref Wrecsam gyda'r nos?

963 o ymatebwyr




	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Diogel iawn / diogel	18%	19%	+1%
Ddim yn gwybod	5%	5%	0%
Ychydig yn anniogel / anniogel iawn	79%	77%	-2%

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo 'ychydig yn anniogel' neu 'anniogel iawn' wrth ymweld â chanol tref Wrecsam yn ystod y dydd (58%). Cynyddodd y ffigwr hwn wrth ymweld gyda'r nos (77%).
- Roedd ymatebwyr o dan 18 mlwydd oed yn fwy tebygol o deimlo'n 'anniogel iawn' yng nghanol y dref gyda'r nos (61%) o'u cymharu â grwpiau oedran eraill (46% ar gyfartaledd).

C14: Rydych wedi cadarnhau nad ydych chi wedi ymweld â chanol tref Wrecsam yn ystod y dydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Gan feddwl am eich rhesymau dros hyn, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol?

"Rwyf wedi osgoi canol tref Wrecsam gan fy mod yn ofni trosedd."


19 o ymatebwyr



	2017	**2018**	**Gwahaniaeth (%)**
Cytuno'n gryf/cytuno	50%	63%	+13%
Ansicr	0%	11%	+11%
Anghytuno'n gryf/anghytuno	50%	26%	-24%

C19: Rydych wedi cadarnhau nad ydych chi wedi ymweld â chanol tref Wrecsam gyda'r nos yn ystod y 12 mis diwethaf. Gan feddwl am eich rhesymau dros hyn, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol?

"Rwyf wedi osgoi canol tref Wrecsam gan fy mod yn ofni trosedd."



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Cytuno'n gryf/cytuno	65%	63%	-2%
Ansicr	10%	11%	+1%
Anghytuno'n gryf/anghytuno	25%	26%	+1%

- O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd nad oeddent wedi ymweld â chanol tref Wrecsam yn ystod y dydd neu gyda'r nos yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 63% yn cytuno'n gryf / cytuno eu bod wedi osgoi canol tref Wrecsam oherwydd eu bod yn ofni trosedd.
- Gwelwyd cynnydd o 13% yn nifer y bobl a oedd wedi osgoi canol tref Wrecsam yn ystod y dydd oherwydd eu bod yn ofni trosedd, o gymharu â chanlyniadau 2017.

C15: Dywedwch wrthym y prif reswm dros eich penderfyniad i beidio ag ymweld â chanol tref Wrecsam yn ystod y dydd yn ystod y 12 mis diwethaf.


Ymateb agored (5 o ymatebwyr) Thema	Nifer y Sylwadau
Dim rheswm dros fynd yno	3
Rhesymau iechyd	1
Rwy'n byw'n bell oddi wrth yr ardal	1

C19: Dywedwch wrthym y prif reswm dros eich penderfyniad i beidio ag ymweld â chanol tref Wrecsam gyda'r nos yn ystod y 12 mis diwethaf.

Ymateb agored (69 o ymatebwyr) Thema	Nifer y Sylwadau
Dim rheswm dros fynd	42
Ymrwymiadau gofal	7
Cludiant cyfyngedig / Costau cludiant a pharcio	6
Mae defnydd cyffuriau yn y dref yn peri i mi beidio â mynd yno.	2
Mae digartrefedd / pobl sy'n cysgu allan yn peri i mi beidio â mynd yno	2
Mae'r unigolion sy'n yfed ar y stryd / ymddygiad meddwl yn peri i mi beidio â mynd yno	2
Nid wyf yn byw yn Wrecsam	2
Rhesymau iechyd / anabledd	1
Mae trais / ymddygiad gwrthgymdeithasol yn peri i mi beidio â mynd yno	1
Arall	4

C16: Pa un weithred neu fenter sydd fwyaf tebygol o wneud i chi deimlo'n fwy diogel yng nghanol tref Wrecsam yn ystod y dydd?


732 o ymatebwyr



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Gwell cysylltiadau cludiant	1%	1%	0%
Plismona gwelededd uchel	48%	47%	-1%
Gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	44%	44%	0%
Ymdeimlad gwell o gymuned	2%	3%	+1%
Stryd fawr i gerddwyr yn unig	0%	0%	0%
Arall	4%	5%	+1%

C21: Pa un weithred neu fenter sydd fwyaf tebygol o wneud i chi deimlo'n fwy diogel yng nghanol tref Wrecsam gyda'r nos?

911 o ymatebwyr



	2017	2018	Gwahaniaeth (%)
Gwell goleuadau stryd	3%	2%	-1%
Gwell cysylltiadau cludiant	1%	1%	0%
Clywed adborth cadarnhaol am fentrau diogelwch presennol	2%	2%	0%
Plismona gweledydd uchel	54%	57%	+3%
Gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	37%	33%	-4%
Ymdeimlad gwell o gymuned	1%	2%	+1%
Stryd fawr i gerddwyr yn unig	1%	0%	-1%
Arall	2%	3%	+1%

- Yr un weithred sy'n debygol o wneud i bobl deimlo'n fwy diogel yng nghanol tref Wrecsam yw 'Plismona gweledydd uchel' (47% yn ystod y dydd, 57% gyda'r nos).

- Gwelwyd cynnydd o 3% yn nifer y bobl a ddywedodd y buasai ‘Plismona gweledded uchel’ gyda’r nos yng nghanol y dref yn gwneud iddynt deimlo’n fwy diogel, o gymharu â chanlyniadau 2017